Urdd 100 1922 - 2022

GWYBODAETH AM **AELODAETH YR URDD** 2021/2022

Ymaelodwch blant eich ysgol/cangen gyda ni er mwyn manteisio ar lu o weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn eich ardal chi.

urdd.cymru/ymuno

#Urdd100

Aelodaeth yr Urdd 2021/2022

Mae blwyddyn newydd aelodaeth yr Urdd ar agor! Ymaelodwch blant eich ysgol neu gangen gyda ni.

Efallai eich bod chi wedi clywed – mae 2022 yn flwyddyn arbennig iawn i'r Urdd, gan y byddwn yn dathlu canmlwyddiant y mudiad! Dyma gyfle i blant a phobl ifanc i fod yn rhan o hanes Cymru.

Bydd llu o weithgareddau a digwyddiadau i blant a phobl ifanc o 8 – 25 oed yn cael eu trefnu drwy gydol y flwyddyn, felly helpwch yr Urdd i droi Cymru yn goch, gwyn a gwyrdd.

Pam ymaelodi?

Rhaid bod yn aelod o'r Urdd er mwyn cymryd rhan yn ein gweithgareddau.

Wrth gofrestru ar gyfer gweithgaredd neu gystadleuaeth fydd angen nodi rhif aelodaeth bob plentyn neu berson ifanc.

Drwy fod yn aelod mae modd ymuno â chlwb chwaraeon neu gelfyddydol lleol, cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, mynd ar daith i wersyll, bod yn rhan o brosiect ieuenctid a llawer mwy.

Faint yw pris ymaelodi ar gyfer 2021/2022?

£10 yw pris aelodaeth yr Urdd am flwyddyn gyfan. Mae pecyn teulu **£25** hefyd ar gael (3 neu fwy o blant).

Rydym hefyd yn cynnig aelodaeth am **£1** i unrhyw blentyn sy'n derbyn cefnogaeth ariannol drwy gynllun cinio ysgol am ddim.

Am y pris hwn bydd aelodau yn derbyn bathodyn a cherdyn aelodaeth a mynediad i holl weithgareddau'r Urdd.

I ganfod mwy am weithgareddau eich ardal ewch i **urdd.cymru/fyardal**

Pris aelodaeth: £10 y plentyn (gostyngiadau ar gael*)

Aelodaeth teulu: £25

*gostyngiad sylweddol i unrhyw blant sy'n derbyn cinio ysgol am ddim

Sut i ymaelodi?

Rydym yn annog pob ysgol a changen i hyrwyddo aelodaeth uniongyrchol gan rieni.

Bydd hyn yn caniatáu:

- Rhieni i dalu'r Urdd yn uniongyrchol gan leihau'r angen i chi fel ysgol weinyddu taliadau.
- Sicrhau fod rhieni yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf gan yr Urdd am weithgareddau.
- Lleihau'r baich gweinyddol arnoch chi fel ysgol/cangen.
- Byddwch fel ysgol/cangen yn cael mynediad i weld pwy sydd wedi ymaelodi gyda'r Urdd er mwyn gweinyddu unrhyw weithgaredd ar ran yr ysgol/cangen.

Mae modd hyrwyddo'r wefan aelodaeth **urdd.cymru/ymuno** drwy eich cylchlythyr neu system gyfathrebu gyda rhieni.

Ar ein gwefan mae adnoddau i chi fel ysgol eu defnyddio wrth hyrwyddo'r Urdd.

Os hoffech daflenni hyrwyddo i roi mewn bagiau plant, cysylltwch gyda ni **aelodaeth@urdd.org**

I ymuno:
urdd.cymru/ymuno

Am fwy o fanylion ewch i'r wefan **urdd.cymru/ymuno**

#Urdd100

Am fwy o wybodaeth:
urdd.cymru/ymuno

Y PORTH

System Newydd

Eleni, mae'r **PORTH** wedi agor, sef cyfle i chi fel ysgol/cangen ac i rieni greu cyfri a gweld manylion eich cangen yn rhwydd.

Fel **Arweinydd Cangen** byddwch yn derbyn e-bost yn fuan ym mis Medi gyda chod dilysu eich cangen er mwyn gallu cychwyn gweinyddu. **NI fydd modd** gweinyddu'r gangen heb ddilyn y drefn yma felly os nad ydych wedi derbyn yr e-bost yma erbyn y **10fed o Fedi** – cysylltwch â ni – **aelodaeth@urdd.org**

Bydd y **PORTH** yn cael ei ddatblygu dros y misoedd nesaf i gynnwys holl weithgareddau'r Urdd, fel bod popeth yn byw mewn un lle canolog. O rifau aelodaeth i fanylion talu, cofrestru ar gyfer gweithgareddau lleol a chystadlu yn yr Eisteddfod, byddwch cyn gallu gwneud y cwbl drwy'r **PORTH**.

Rydym yn hyderus y bydd hwn yn adnodd hynod o ddefnyddiol i bawb.

Cwestiynau pellach?
aelodaeth@urdd.org

Am fwy o fanylion ewch i'r wefan **urdd.cymru/ymuno**
#Urdd100